



Gair i Gall



Datblygu perthynas â chyllidwyr Cenhadaeth a Gwerthoedd

Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sydd eisiau datblygu perthynas gyda chyllidwyr presennol a darpar gyllidwyr.

Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Perthynas barhaus gyda chyllidwyr wedi'i datblygu, gan gryfhau cysylltiadau a allai arwain at gael cyllid yn y dyfodol.

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Amser staff / ymddiriedolwyr i ddatblygu perthnasoedd


Agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys cyllidwyr yn eich gwaith

Ychydig o feddwl creadigol wrth ystyried sut i'w cynnwys

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Nodwch pwy yw'ch **'darpar roddwyr'** - eich darpar gyllidwyr, cyfranwyr a chefnogwyr. Mapiwch eich cysylltiadau â darpar gyllidwyr / cyfranwyr / cefnogwyr yn ogystal â'r rhai presennol. Dechreuwch gyda'r rhai sydd agosaf at eich mudiad e.e. ymddiriedolaethau a chyllidwyr sydd wedi rhoi arian o'r blaen, yna gweithiwch tuag allan ac ystyried unigolion, grwpiau, busnesau, neu ymddiriedolaethau elusennol allai fod â diddordeb mewn cael cyswllt gyda chi **oherwydd bod eich achos neu'ch prosiect yn gysylltiedig â'u diddordebau neu eu gweithgareddau nhw.**

- Ymchwiliwch - cyn cysylltu â darpar gyllidwyr, dewch i wybod cymaint ag y gallwch amdanynt i ddechrau. Defnyddiwch y **'3 C'** fel modd i asesu pa mor debygol ydynt o ymateb i chi: **cysylltiad â chi; consyrn dros eich achos; capasiti i roi.**
- Cynlluniwch sut byddwch yn cysylltu - penderfynwch pwy ddylai gysylltu â'ch darpar gyllidwr. Efallai bod gan eich mudiad aelodau staff sy'n gweithio'n benodol ar godi arian, efallai y byddwch yn dibynnu ar wirfoddolwyr, neu'n troi at aelodau o'ch Bwrdd. **Penderfynwch ar rolau a chyfrifoldebau penodol i bawb sy'n rhan o'r broses a pharhewch â chyfathrebu da o fewn eich mudiad.**
- Efallai y gallech ddefnyddio'r *pyramid rhoddwyr* er mwyn ystyried sut y gallwch chi symud pobl o waelod y pyramid i'r brig trwy gyfleoedd i ymgysylltu, megis ymweliadau safle, dyddiau agored, cynigion gwirfoddoli cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (ar gyfer busnesau lleol neu fusnesau mwy) neu ddigwyddiadau codi arian cymunedol, a **llunio cynllun gweithredu yn seiliedig ar y cyfleoedd sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect chi.**



Enghraifft o 'Byramid Rhoddwyr' - mae yna fodelau gwahanol, felly edrychwch i weld beth sy'n gweddu orau i'ch mudiad chi.

- Cynnwys pobl – **sut gallwch chi ddod â'ch darpar gyllidwyr yn nes at eich gwaith, eich achos neu'ch prosiect?** Meddyliwch am ffyrdd o'u helpu i ddeall eich cenhadaeth a'ch gweledigaeth yn well, yn ogystal â'r effaith y mae eich gwaith yn ei chael a sut bydd eu cefnogaeth yn cyfrannu tuag at hynny. Cynigiwch daith 'tu ôl i'r llenni' iddyn nhw neu ymweliad safle i'ch depo cerbydau, awgrymwch y gallant fynd am daith fer yn un o'ch cerbydau er mwyn cael sgwrs gyda'r teithwyr, rhowch wahoddiad iddynt i'ch Cyfarfod Blynyddol, rhannwch wybodaeth benodol megis eich adroddiad blynyddol. Gofynnwch am eu caniatâd i'w rhoi nhw ar eich rhestrau postio ar gyfer cylchlythrau, e-fwletin neu ddulliau cyfathrebu eraill.

- Gofynnwch - mae'n bosib y bydd rhaid i chi 'wneud y gofyn' trwy gynnig ysgrifenedig, ffurflen gais, llythyr, y ffôn, neu mewn cyfarfod wyneb-yn-wyneb. Gwnewch eich ymchwil. Sicrhewch eich bod wedi cadarnhau'r 3 C (cysylltiad, consyrn, capasiti) ar gyfer unrhyw ddarpar gyllidwr. **Os byddwch yn cael cyfarfod gyda swyddog grantiau, penderfynwch pwy yw'r person gorau o'ch mudiad i fynychu** – gallai hynny fod yn seiliedig ar eu cysylltiad presennol, eu profiad neu eu harbenigedd. Trefnwch ddilyniant i'r cyfarfod - galwad ffôn, o bosib, neu gynnig llawn.
- Diolchwch - mae diolch i rywun am eu cefnogaeth yn bwysig, a dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn grant neu gyfraniad. **Dylech gydnabod cefnogaeth cyllidwr, ond mae angen gwirio yn gyntaf - mae gan rai cyllidwyr ffyrdd penodol y maen nhw am gael eu cydnabod (er enghraifft, trwy ddefnyddio eu logo ar eich gwefan a'ch adroddiad blynyddol) a bydd rhai ohonynt am fod yn ddiennw.** Gallech ystyried rhyddhau datganiad i'r wasg ynglŷn â'u cefnogaeth, rhoi eitem newyddion neu flog ar eich gwefan, rhoi sylw iddynt yn eich cylchlythyr neu e-fwletin, neu roi cydnabyddiaeth iddynt trwy gyflwyniad neu araith neu mewn digwyddiad, neu gallech ddarparu tystysgrif yn nodi eich diolch iddynt ei harddangos yn eu gweithle.
- Ymatebwch – **os bydd cyllidwr yn gofyn am ragor o wybodaeth, rhowch y wybodaeth honno'n byrdlon.** Os byddant yn anfon llythyr cynnig atoch chi, sicrhewch eich bod chi a'ch ymddiriedolwyr yn deall y manylion yn y llythyr cynnig yn llwyr. Gwiriwch unrhyw wybodaeth am 'Amodau'r Grant' gan fod cadw at yr amodau hyn yn hanfodol. Ceisiwch gyngor gan y swyddog grantiau os oes angen unrhyw esboniad pellach.
- Mae cynlluniau'n gallu newid - os digwydd hynny, mae'n hollbwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r cyllidwr am unrhyw newidiadau i'r prosiect, yn enwedig i gyllideb y prosiect. **Os ydych chi eisiau newid y modd y caiff grant y prosiect ei wario, ceisiwch ganiatâd (ysgrifenedig) gan y cyllidwr cyn gwneud hynny. Os na wnewch chi, gallai'r cyllidwyr hawlio rhywfaint o'r cyllid yn ôl.** Os nad ydych chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, gallech beryglu cyllid presennol neu yn y dyfodol. Dychwelwch bob adroddiad monitro cyn y terfyn amser. Mae cyllidwyr eisiau gweld eich prosiect yn datblygu, felly byddant yn croesawu cyfathrebu agored ynglŷn ag unrhyw beth a ddysgir o'r prosiect.
- Cadwch afael - mae'n cymryd llai o amser a llai o arian i gadw'r cyllidwyr sydd gyda chi eisoes nag i recriwtio rhai newydd. Mae gobaith da y daw cyfraniadau yn y dyfodol gan gyllidwyr presennol, felly gofawch amdanynt trwy **feddwl yn ofalus a gweithredu mesurau effeithiol i ymgysylltu'n barhaus a chynnal y berthynas - gwaith a elwir hefyd yn 'stiwardiaeth'.**
- Monitrowch a dadansoddwch effaith eu cefnogaeth ac adroddwch yn ôl iddyn nhw am hynny. Cadwch gofnodion o sylw yn y wasg a'r cyfryngau fel bod modd i chi eu rhannu, ewch yn ôl atynt gyda chynigion pellach wedi'u teilwra yn ôl eu diddordebau a chadwch gysylltiad â'ch cyllidwr trwy gyfathrebu'n rheolaidd. **Gwerthuswch eich perthynas â chyllidwyr, a chofiwch unrhyw beth a ddysgwyd pan fyddwch yn mynd ati i ffurfio perthnasoedd newydd.**

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.